



## Cyd-Bwyllgor Partneriaeth

Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023

Siambr – Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell –  
10 – 10.37yb

**CADEIRYDD:** Y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin (aelod â phleidlais)

<b>Aelodau â Phleidlais</b>	
Y Cynghorydd Rob Smith	Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, (Cyngor Abertawe)
Y Cynghorydd Guy Woodham	Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes (Cyngor Sir Penfro)
<b>Y Prif Weithredwr</b>	
Mrs. Wendy Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin (Y Prif Weithredwr)
<b>Cyfarwyddwyr Addysg</b>	
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Mr Steven Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro - Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol
Ms. Helen Morgan-Rees	Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Cyfarwyddwr Arweiniol)
Mrs. Sarah Edwards	Swyddog A151 Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mr Dean Philpin	Rheolwr Cyllid (Addysg, Cyngor Sir Penfro)
Y Cynghorydd Glynog Davies	Yr Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Ms. Elin Forsyth	Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Mr Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Ms. Linda Rees Jones	Swyddog Monitro (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Ms. Ruth Lee	Rheolwr Busnes Partneriaeth
Mrs. Kelly Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democraidd, cymryd nodiadau)
Mr. Aled Eynon	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)
Mr. Martin Runeckles	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwe-ddarlledu)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan William Bramble (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Sir), Mark Champion (ESTYN), Martin Nicholls, (Prif Weithredwr, Dinas a Sir Abertawe), y Cynghorydd Lyndon Jones (Cadeirydd Craffu, Cyngor Dinas a Sir Abertawe), Jon Haswell Swyddog S151, (Cyngor Sir Penfro) a Karen Newby Jones (ESTYN).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH AR 3 CHWEFROR 2023

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi bod cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Cysgodol Partneriaeth a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, 2023 yn gywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Nid oedd dim materion yn codi o'r Cofnodion.

## 5. LLYTHYR GAN GADEIRYDD GRŴP CYNGHORWYR CRAFFU PARTNERIAETH

Derbyniodd y Cydbwyllgor llythyr gan Gadeirydd Grŵp Cyngorwyr Craffu yn edrych yn ôl ar y sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp ar y 13 Chwefror, 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i dderbyn y llythyr sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.

## 6. CYLLIDEB DDRAFFT PARTNERIAETH AR GYFER 2023-24 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG DRAFFT AR GYFER 2023-24 HYD AT 2026-27

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb Ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2023-24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27.

Cymeradwywyd y Gyllideb Ddrafft 'mewn egwyddor' ar gyfer 2023-24 gan y Cyd-bwyllgor gyda chymeradwyaeth ffurfiol i ddod yn ystod cyfarfod y Cyd-bwyllgor heddiw. Anfonwyd e-bost at Aelodau'r Cydbwyllgor ar 27 Mawrth 2023 gyda phob Aelod yn cadarnhau ei gymeradwyaeth 'mewn egwyddor'.

Datblygwyd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27 mewn ymgynghoriad â Swyddog Arweiniol Partneriaeth a'r tri Chyfarwyddwr Addysg.

Bu nifer o newidiadau i'r Gyllideb Ddrafft yn dilyn cael cadarnhad ar 18 Mai 2023 o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24:

- Roedd cyllid Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn llai na'r disgwyl oherwydd bod elfen Cymraeg mewn Addysg y Grant Gwella Addysg yn cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i Awdurdodau Lleol, felly mae'r gyllideb ar gyfer Amcanion y Cynllun Busnes wedi'i diwygio yn unol â hynny.
- Cadarnhad o incwm secondiad gan Lywodraeth Cymru, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb costau staffio.
- Cadarnhad o newidiadau i strwythur staffio ac ail-gyfrifo'r costau staffio.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL :**

- 6.1 Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**
- 6.2 Bod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn cael ei chymeradwyo.**
- 6.3 Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27 yn cael ei gymeradwyo.**
- 6.4 Bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2023-24 yn cael ei gymeradwyo.**
- 6.5 Bod y cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2023-24, yn lle cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol yn cael ei gymeradwyo.**
- 6.6 Bod y defnydd o'r £1.492m o'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau gan ERW i greu balans gwaith o £0.100m ar gyfer Partneriaeth a chronfa wrth gefn o £1.392 miliwn ar gyfer Partneriaeth yn cael eu cymeradwyo.**

## **7. PERFFORMIAD PARTNERIAETH 2022-23**

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor drosolwg o'r ddarpariaeth a'r perfformiad drwy gydol cyfnod Cynllun Busnes 2022-23 er mwyn eu nodi a'u derbyn.

Rhodddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod Partneriaeth yn cynnig ystod briodol o gymorth ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol. Gwelir hyn mewn ystod o grwpiau rhanddeiliaid yn ogystal â chydweithio cadarn gyda chydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol. Mae swyddogion yn darparu cefnogaeth bwrpasol ac addas i ysgolion a chlystyrau.

Yn ystod deuddeg mis cyntaf Partneriaeth fel gwasanaeth rhanbarthol, mae uwch swyddogion wedi parhau i dderbyn adborth gonest gan swyddogion yr Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau darpariaeth sydd wedi'i mireinio lle bo hynny'n briodol. O ganlyniad, mae ymgysylltu, ymddiriedaeth ac ansawdd wedi gwella. Disgwylir y bydd adborth agored ac uniongyrchol parhaus rhwng Partneriaeth a swyddogion yr awdurdodau lleol yn fuddiol i bawb i lunio dysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth.

Mewn ymateb i ymholiad ar yr amserlen ar gyfer yr arolwg i athrawon, dywedodd Swyddog Arweiniol Partneriaeth wrth y Cyd-bwyllgor, y byddai arolwg yn cael ei anfon at bob Pennaeth mewn modd amserol gyda phob athro yn cael mynediad

trwy amrywiol rwydweithiau. Nodwyd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd nifer o sylwadau yn diolch i Partneriaeth am y gwaith gwerthfawr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei nodi a'r adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## **8. CYNLLUN STRATEGOL/CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH 2023-24**

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Gynllun Strategol a Chynllun Busnes Partneriaeth ar gyfer 2023-24 er mwyn eu cymeradwyo.

Rhodddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor bod y Cynllun Strategol ar gyfer 2023-26 wedi'i ddatblygu i roi trosolwg o feysydd blaenoriaeth y tymor canolig, sy'n gysylltiedig â meysydd cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023-24 hefyd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ac yn cynnwys targedau mesuradwy ychwanegol i gefnogi gofynion adrodd Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023-24.**

## **9. COFRESTR RISGIAU**

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor y Gofrestr Risg yn nodi proffil risg cyffredinol y rhanbarth.

Bydd y Gofrestr Risg yn cael ei datblygu i adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023-24 a'i chyflwyno yn ystod cyfarfod y Cyd-bwyllgor yn yr hydref.

Nodwyd bod y risgiau canlynol o debygolrwydd canolig ac effaith uchel:-

- Prydlondeb Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid
- Diffyg Eglurder o ran swyddogaethau Partneriaeth

Nodwyd bod ESTYN yn arolygu Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd ac y byddai eu canfyddiadau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Busnes nesaf.

Cafwyd cynnig i adolygu'r aelodaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgor o fewn y rheolau sefydlog, er mwyn caniatáu hyblygrwydd wrth enwebu aelodau parhaol. Bydd adroddiad yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 bod y proffil risg yn cael ei nodi**

**9.2 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn**

**9.3 bod aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cael ei adolygu a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol i'w gymeradwyo**

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTERIED YN FATER BRYD  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**